**Trawsgrifiad Recordio Beth yw Rhagnodi gwrthfiotigau wrth gefn?**

1

00:00:01,230 --> 00:00:06,180

Shwmae Meryl ydw i, ac rwy'n Fferyllydd Gwrthficrobaidd gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru

2

00:00:06,480 --> 00:00:10,590

Ac rydw i'n mynd i fod yn esbonio i chi heddiw beth yw rhagnodi gwrthfiotigau wrth gefn.

3

00:00:12,240 --> 00:00:15,090

Felly beth yw'r cefndir i ragnodi gwrthfiotigau wrth gefn?

4

00:00:16,230 --> 00:00:23,730

Wel, mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi dynodi ymwrthedd gwrthficrobaidd fel un o'r deg prif fygythiad iechyd byd-eang.

5

00:00:24,600 --> 00:00:31,200

A gwyddom mai un o'r prif yrwyr i ymwrthedd gwrthficrobaidd yw cymryd gwrthfiotigau pan nad oes eu hangen arnom.

6

00:00:32,900 --> 00:00:43,070

Ond mae cymryd gwrthfiotigau yn ddiangen nid yn unig yn gyrru ymwrthedd gwrthfacterol, ond gall achosi adweithiau niweidiol fel dolur rhydd, brech a chwydu.

7

00:00:43,610 --> 00:00:50,630

Mae'n cynyddu costau'r GIG ac yn cynyddu'r risg y bydd ein cleifion yn cael haint sy'n gysylltiedig â gofal iechyd.

8

00:00:52,250 --> 00:01:00,770

Un o'r strategaethau gorau i leihau defnydd gwrthficrobaidd diangen mewn gofal sylfaenol yw defnyddio strategaeth rhagnodi wrth gefn ar gyfer,

9

00:01:00,770 --> 00:01:02,330

heintiau hunan-gyfyngol.

10

00:01:03,500 --> 00:01:11,600

Mae canllawiau perthnasol NICE a Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan yn argymell defnyddio strategaeth rhagnodi wrth gefn gyda chwnsela cleifion

11

00:01:12,020 --> 00:01:18,170

os oes ansicrwydd a yw cyflwr yn hunan-gyfyngol neu'n debygol o ddirywio.

12

00:01:20,500 --> 00:01:22,060

Wel, ym mis Hydref eleni,

13

00:01:22,120 --> 00:01:28,390

cyhoeddodd Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan ddogfen a alwyd  Rhagnodi gwrthfiotigau wrth gefn: Canllaw arfer da

14

00:01:29,500 --> 00:01:33,969

Paratowyd y canllaw gan grŵp cydweithredol amlbroffesiynol yn dilyn trafodaethau

15

00:01:33,970 --> 00:01:38,320

o fewn ffrwd waith gofal sylfaenol y Bwrdd Cyflawni Ymwrthedd Gwrthficrobaidd ar y pryd.

16

00:01:39,250 --> 00:01:47,830

Mae'r canllaw yn berthnasol i bawb sy'n ymwneud â rhagnodi, dosbarthu, a rhoi gwrthfiotigau ar gyfer heintiau hunangyfyngol.

17

00:01:49,380 --> 00:01:53,190

Felly beth yw'r rhesymeg dros ddefnyddio strategaeth rhagnodi gwrthfiotigau wrth gefn?

18

00:01:54,210 --> 00:02:00,690

Wel, ni ddylid rhagnodi gwrthfiotigau ar gyfer heintiau sy'n debygol o fod yn firaol neu'n hunangyfyngol eu natur,

19

00:02:01,110 --> 00:02:04,590

a lle fydd gwrthfiotig ond yn darparu budd ymylol.

20

00:02:05,700 --> 00:02:13,680

Mae’n grymuso pobl i hunanreoli eu haint fel cam cyntaf, ond yn caniatáu mynediad iddynt at wrthfiotigau heb fod angen apwyntiad arall.

21

00:02:14,040 --> 00:02:18,330

os yw eu haint yn gwaethygu neu'n methu â gwella o fewn amserlen benodol.